



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Fwy Cyfartal

- 1: Gwaith teg:** Sicrhau mynediad cyfartal i swyddi gweddus, gan gydnabod gwerth pawb
- 2: Cyfleoedd addysgol:** Galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd i'w cyflawni
- 3: Cyfranogiad:** Rhoi cyfleoedd cyfartal i bobl gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, i alluogi canlyniadau cyfartal
- 4: Canlyniadau iechyd cyfartal:** Deall achosion a symptomau anghydraddoldebau iechyd, yn cynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Cham-drin Domestig yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Fwy Cyfartal

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,
diffinnir y nod hwn fel

*“Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni
waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys
eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).”*



Diffinio'r nod

Mae cydraddoldeb yn fater i bawb. Mae tlodi, sy'n gwaethygu yng Nghymru, yn arwain at fwlch amlycach yng nghyfleoedd pobl sy'n cael eu geni i mewn i wahanol gefndiroedd cymdeithasol-economaidd.

Er gwaethaf y cynnydd yn lefelau cyflogaeth, nid yw gwaith o reidrwydd yn arwain at safon bywyd digonol. Hefyd, dywed un o bob pedwar o bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol eu bod yn unig yng Nghymru yn 2017-18; mae bron i dair gwaith yn fwy o bobl anabl yn dweud eu bod yn dioddef o iechyd meddwl gwael na phobl nad ydynt yn anabl, ac mae un o bob tair menyw yng Nghymru'n profi trais corfforol neu rywiol ar ryw adeg yn eu bywydau. Mae'n glir bod angen gwneud llawer mwy o fewn ein sefydliadau ac ar lefel cenedlaethol, a hyn yn golygu mynd tu hwnt i'r dyletswyddau a nodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), a dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru, drwy gymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod dyfodol Cymru'n un lle mae gan bobl nid yn unig gyfleoedd cyfartal, ond canlyniadau cyfartal.

Mae gennym i gyd ran i'w chwarae yn y dasg o sicrhau fod pobl yn medru cyflawni eu potensial ni waeth o ble maent yn dod, yn amrywio o sicrhau mynediad i swyddi gweddus drwy waith teg, i fynediad i gyfleoedd addysgol, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn penderfyniadau, a gweithredu ar anghydraddoldebau cymdeithasol-economaidd.



Astudiaethau achos

Drwy gydol y ddogfen byddwch yn dod o hyd i nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i wrthrych y pwnc. Os gwelwch yn dda darllenwch y ddolen os welwch chi'r symbol hwn.



© Hijinx

Diffinio'r nod

Ble i ffocysu eich gweithrediadau wrth gyfrannu at y nod hwn

Sicrhau bod gan bobl fynediad cyfartal i swyddi gweddus, gan gydnabod gwerth pawb.

(Gweler taith tuag at Gymru fwy cyfartal pwnc 1: Gwaith teg)

Galluogi pobl i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth i gyflawni eu potensial.

(Gweler taith tuag at Gymru fwy cyfartal pwnc 2: Cyfleoedd addysgol)

Rhoi i bobl gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, i alluogi canlyniadau cyfartal.

(Gweler Taith tuag at Gymru fwy cyfartal 3: Cyfranogiad)

Cefnogi dealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd.

(Gweler taith tuag at Gymru fwy cyfartal pwnc 4: Cydraddoldeb a chanlyniadau iechyd)

Cefnogi dealltwriaeth o bwysigrwydd cefndir ac amgylchiadau cymdeithasol-economaidd pobl yng nghyflawniad eu potensial.

(Pwnc taith ar anghydraddoldeb cymdeithasol-economaidd i gael ei gynnwys yn y cyfnod nesaf)

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac mewn cymdeithas ehangach. Disodlwyd deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol pan grewyd un Ddeddf, gan wneud y gyfraith yn haws ei deall a chryfhau amddiffyniad mewn rhai achosion. Mae'n nodi'r gwahanol ffyrdd a ddefnyddir i drin pobl yn anghyfreithlon.

Am wybodaeth a chanllawiau gweler <https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance>, yn cynnwys canllawiau sy'n berthnasol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Bwriad y **Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015** yw gwella'r trefniadau ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o, ac atal, amddiffyn, a chynorthwyo dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Darparir dolennau i ganllawiau drwy'r holl ddogfen hon, a gellir dod o hyd i'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn <https://gov.wales/national-training-framework-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-statutory>.



Mae rhai o'r camau a'r gweithredoedd a awgrymir yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir yn y ddeddfwriaeth - camau a gweithrediadau penodol sydd ynghlwm wrth y rhain yw'r rhai a amlygir mewn oren gyda'r symbol 'St'.

Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn fwy **tebygol o ddigwydd...**


- Pan fydd amrywiaeth yn cael ei ddathlu.
- Pan fydd pobl yn deall beth a olygir gan greu Cymru fwy cyfartal, a phwysigrwydd trawsdoriadoldeb (sut mae gwahanol agweddau ar wahaniaethu'n gorgyffwrdd/croesdorri).
- Pan fydd sefydliadau'n cydnabod bod ganddynt waith i'w wneud yn y maes hwn yn nhermau cynrychiolaeth staff.
- Pan fydd buddsoddiad mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei gydnabod fel rhywbeth 'sy'n gwneud synnwyr busnes da', nid yn unig fel y peth 'moesol' i'w wneud.
- Pan werthfawrogir bod creu Cymru fwy cyfartal yn effeithio'n gadarnhaol ar y nodau llesiant eraill.



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn llai **tebygol o ddigwydd...**

- Pan fydd y gwaith o wella cydraddoldeb yn disgyn yn unig ar y 'tîm cydraddoldeb'.
- Pan fydd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei weld fel 'rhywbeth braf i'w gael' yn hytrach nag fel rhan hanfodol o fusnes o ddydd i ddydd.
- Pan fydd gwneud unrhyw beth tu hwnt i'r gofyniad cyfreithiol lleiaf yn cael ei weld fel defnydd gwael o adnodd (e.e. gwneud gwybodaeth yn rhywbeth hygyrch).
- Pan fydd cymhlethdod trawsdoriadoldeb (sut mae gwahanol agweddau ar wahaniaethu'n gorgyffwrdd/croesdorri) heb gael ei werthfawrogi.
- Pan na fydd dealltwriaeth o'r cysyniad o fraint.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Fwy Cyfartal

3: Cyfranogiad

Rhoi i bobl gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, i alluogi canlyniadau cyfartal

Diffinio'r mater

Mae cyfranogi mewn gwneud penderfyniadau ac mewn cymunedau'n bwysig i alluogi pobl i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt mewn gwahanol feysydd o fywyd. Mae medru cyrchu gwasanaethau a ffurfio cysylltiadau gyda rhyddid ac ymreolaeth hefyd yn caniatáu i bobl arfer eu hawliau drwy gyfranogi yn eu cymunedau.

Roedd 47% o gynghorwyr sir a 55% o gynghorwyr cymuned a etholwyd yn 2017 yn 60 mlwydd oed

neu'n hŷn, tra'r oedd traean o gynghorwyr sir (33%) yn fenywod a 35% o gynghorwyr cymuned yn fenywod. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19, mae 18% o ymatebwyr yn teimlo'u bod yn medru dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio are eu hardal leol, a'r casgliad hwn yn fwy tebygol ymhlith ymatebwyr iau (16-34 mlwydd oed) ac ymatebwyr heb salwch hirdymor sy'n eu cyfyngu, nam neu wendid. Hefyd mae 80% o'r rhai a ymatebodd i'r arolwg yn ystyried bod ganddynt fynediad da i wasanaethau a chyfleusterau.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at ymgyfraniad

Pwnc 1: Diwylliant ymgyfraniad sefydliadol



Taith tuag at Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Pwnc 5: Diwylliant sydd ar gael i bawb

Gwneud **Newidiadau** Syml



Sicrhewch fod eich sefydliad yn cynorthwyo gwyliau sy'n hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant megis Gwanwyn, Wythnos Ffoaduriaid, Age Cymru.



E.e. Mae Taliesin ym **Mhrifysgol Abertawe'n** cynnal [gosodwaith Age Cymru](#) a grëwyd gan breswylwyr mewn cartrefi gofal.



Pan fyddwch yn cynnal digwyddiad, gofynnwch a oes gan bobl ofynion mynediad pan fyddant yn cofrestru a chynigiwch rif ffôn ychwanegol at y system fwcio ar-lein. Mae'n ofyniad cyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol.



Pan fyddwch yn gweithio gyda phobl, defnyddiwch amrywiaeth o ddulliau cysylltu i gynyddu hygyrchedd megis HMS, sgwrsio ar-lein.



E.e. Mae gan **Gyngor Dinas Caerdydd** ystod o ddulliau i breswylwyr [gysylltu â nhw](#), yn cynnwys gwasanaeth iaith arwyddion.



Sicrhewch fod holl adeiladau eich sefydliad yn ufuddhau i anghenion mynediad ar gyfer mynediad a chyfleusterau.



Dygwch gyfleoedd ymgyfrannu i bobl, yn hytrach na disgwyl iddyn nhw ddod atoch chi.



E.e. Archwiliodd **Llywodraeth Cymru** hyn gyda'i gwaith [ymgyfrannu oedd yn ymwneud â'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol](#).



Pan fyddwch yn chwilio am farn pobl am eich gwaith, sefydlwch brosesau sy'n gwerthfawrogi storïau unigol yn ogystal â data meintiol.



Crëwch bolisi i alluogi eich sefydliad i ddysgu am faterion yn ymwneud â ffoaduriaid a cheiswyr lloches.



Gwneud Newidiadau Syml



Sicrhewch ymgyfraniad pobl mor gynnar â phosibl.



E.e. [Prosiect cydraddoldeb Rhwydwaith Llywodraeth Agored Cymru a gyflwynir gan Diverse Cymru a C3SC yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.](#)



Pan fyddwch yn gweithio gyda phobl, darparwch wasanaeth cyngor/pwynt cyswllt cychwynnol sy'n hawdd ei gyrchu ac sy'n gyfeillgar i ddefnyddwyr.



Gwnewch wybodaeth gyhoeddus yn hygyrch drwy nifer o wahanol fformatau, gan ystyried fideo, laith Arwyddion Prydain, fersiynau hawdd eu darllen a sain.
<https://www.youtube.com/watch?v=wjsYMA4Ml1g>



Pan fyddwch yn trefnu digwyddiadau neu gyfarfodydd, dewiswch leoliadau allanol sy'n hygyrch i bobl anabl ac aliniwch hyn ag amserau trafnidiaeth gyhoeddus ble bynnag mae hynny'n bosibl.



Hyrwyddwch wybodaeth am wasanaethau sydd ar gael i bobl sy'n ceisio lloches drwy lwyfannau ar-lein megis Dewis a gwefan Croeso i Gymru.



Chwiliwch yn egniol am fewnbwn oddi wrth grwpiau a dangynrychiolir a rhai nad ydynt yn aml yn cael gwrandawriad.



Sicrhewch eich bod yn recriwtio pobl amrywiol fel gwneuthurwyr penderfyniadau - er enghraifft aelodau etholedig neu aelodau bwrdd.



Cynigiwch ymwybyddiaeth o hyfforddiant mewn Byddardod (BSL) ar gyfer eich staff, yn arbennig y rhai yn y rheng flaen.



E.g. <https://youtu.be/u2TPjTnyrAE>



Defnyddiwch 'Ddiwrnodau Rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig' i addysgu, ysbrydoli ac ennyn ymgyfraniad pobl. Megis 20fed Mehefin, Diwrnod Ffoaduriaid y Byd, 8fed Mawrth, Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.



Sicrhewch fod gennych bolisi VAWDASV cadarn sy'n cynnwys mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol.



Rhowch arweiniad, cyngor a hyfforddiant ar gam-drin ar-lein. Am fwy o wybodaeth am gam-drin ar-lein a'i effaith ar oroeswyr a chamau y gellir eu cymryd gweler 'Welsh Womens Aid' briefing.

Bod Yn Fwy Anturus

Ymrwymwch i darged o 50:50 mewn cynrychiolaeth rhywedd ar fyrddau neu ar lefel uwch erbyn 2021.

Sicrhewch fod person wedi ei h/enwi â chyfrifoldeb am hyrwyddo ymgyfraniad o fewn pob adran o'ch sefydliad.

Datblygwch gyfleoedd i uwch staff gymryd rhan mewn cysgodi, neu drefnu iddynt gael 'eu tywys drwy' eich gwasanaethau er mwyn datblygu empathi, ac adnabod lle gellir gwneud gwelliannau.

ee

E.e. Mae uwch staff **Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf** yn cymryd rhan mewn cyfleoedd cysgodi neu gael '[eu tywys drwy](#)' wasanaethau er mwyn datblygu empathi ac adnabod ble gellir gwneud gwelliannau.

Dewiswch staff o fewn eich sefydliad i fod yn bwynt cyswllt cychwynnol gyda grwpiau a phrosiectau, i'ch galluogi i ddarganfod dulliau o weithio gyda nhw.

Pan fyddwch yn ymgynghori neu'n ymgysylltu, datrysych broblemau ar y cyd, 'gyda' chymunedau'n hytrach na gwneud dim mwy na chynnig dewisiadau sydd wedi cael eu penderfynu eisoes.

ee

Pan fyddwch yn chwilio am farn pobl am eich gwaith, dangoswch yr hyn yr ydych wedi ei newid fel canlyniad a pham y gwnaethpwyd penderfyniadau gan ddefnyddio enghreifftiau o brofiad bywyd neu astudiaethau achos.

E.e. Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan '[Dywedoch chi Gwnaethom ni](#)'.

Pan fyddwch yn gweithio i atal tlodi, enynnwch ymgyfraniad pobl â phrofiad uniongyrchol o dlodi wrth lunio polisiâu ac ymagweddau.

Bod Yn Fwy Anturus

Pan fyddwch yn creu adroddiadau am bobl dadgyfunwch yn ôl nodweddion gwarchoddedig (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifl a beichiogrwydd a mamolaeth) er mwyn tynnu sylw at faterion allweddol.

Darganfyddwch pa adnoddau a roddir i ffoaduriaid yn eich ardal a beth fedrech ei ychwanegu i gynorthwyo integreiddio.

St

Pan fyddwch yn cyflwyno rhaglenni hyfforddiant ac addysg i gymunedau lleol, sicrhewch eu bod yn ddwyieithog ac yn gwbl hygyrch i bawb.

CARTREF

Adolygwch hygyrchedd eich gwasanaethau digidol i sicrhau eu bod yn cwrdd ag arfer gorau fel y gall pobl anabl, pobl heb Saesneg, pobl â chysylltiad cyfyngedig â'r rhyngwrld a goroeswyr trais eu cyrchu'n gyfartal.

Sicrhewch fod rhan o'ch gwefan yn hybu grantiau sydd ar gael i sefydliadau yn eich ardal.

Cynhaliwch weithgareddau diwylliannol megis parti cymunedol, perfformiad theatr neu wyl sy'n berthnasol i'r pwnc o dan sylw i gael pobl i archwilio'r mater ymhellach.

E.e. [Mae Theatr Hijinx wedi perfformio theatr fforwm rhyngweithiol i archwilio materion yn ymwneud ag anableddau dysgu.](#)

Pan fyddwch yn gweithio gyda lleoliadau diwylliannol megis theatrau ac amgueddfeydd, sicrhewch fod yna ddigwyddiadau hamddenol a chyfleoedd eraill sy'n addas ar gyfer pobl ag awtistiaeth a dementia.

E.e. **Sefydliad y Glowyr y Coed Duon / Theatrau Rhondda Cynon Taf** – perfformiadau hamddenol.

Lle'r ydych yn darparu gwaith neu fannau gwyrdd agored sy'n agored i'r cyhoedd, sicrhewch fod pawb yn medru eu mwynhau, drwy ddarparu seilwaith mynediad digonol, megis llwybrau addas.

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu cenedlaethol neu gydweithredol

Mae yna ymdrech genedlaethol gydunol i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n fwy amrywiol, gan gadw mewn golwg holl nodweddion gwarchoddedig. Mae hyn yn golygu hyfforddiant ac adeiladu gallu.

Mae dysgu a gwybodaeth sy'n deillio o ymgyfraniad cyhoeddus mewn penderfyniadau lleol a rhanbarthol yn cael eu rhannu gyda, a'u defnyddio i ddylanwadu ar sefydliadau a pholisi cenedlaethol.

Mae datblygu ac adolygu polisi a gwasanaethau'n mabwysiadu'n systematig ymagwedd 'cerdded yn esgidiau eraill' gan ystyried pwy yw'r defnyddwyr terfynol a sut mae'r polisi neu'r gwasanaeth yn cael eu profi ganddyn nhw.

Mae mecanweithiau yn eu lle i sicrhau bod unrhyw ddinesydd a fyddai'n hoffi ymgyfrannu mewn gwella gwasanaeth neu gynllun yn cael y cyfle i wneud hynny.

E.e. '[Empowerment Act - Participation request](#)' y Gymuned Albanaid.

Gweithredu sefydliadol

Hyrwyddwch yn egniol gyfleoedd i rannu swydd ar gyfer cynghorwyr neu arweinyddion eraill, a monitrwch faint o bobl sy'n manteisio ar y cyfleoedd hyn.

Dilëwch unrhyw rwystrau i gyfranogiad gwleidyddol/ arweinyddol - cyhoeddwch ddata amrywiaeth yn wirfoddol ar ddethol ac ethol ymgeisyddion mewn etholiadau neu recriwtio i'r bwrdd.

Perchnogi'r Uchelgais

Dewch yn sefydliad neu'n ysgol noddfa, a gweithiwch gyda phartneriaid i sicrhau eu bod yn gwneud yr un fath.

E.e. Mae **lechyd Cyhoeddus Cymru** yn y broses o ddod yn sefydliad noddfa..

E.e. [Ysgol Cradoc School](#)

Sicrhewch fod data sydd wedi'i ddadgyfuno am eich cymunedau ar gael i'r cyhoedd i helpu i adeiladu darlun o brofiadau gwahanol grwpiau ledled Cymru ac i gefnogi craffu ac asesu mwy effeithiol o wasanaethau a ddarperir yn lleol.

Tynnwch sylw at y defnydd o ffurflenni wedi eu symleiddio ar gyfer grwpiau cymunedol sy'n ceisio am grantiau neu drwyddedau i redeg digwyddiadau neu brosiectau. Mae hyn yn dileu rhwystrau i grwpiau 'llawr gwlad' sy'n sefydlu mentrau newydd.

Amddiffynnwch ddiwrnodau staff i ymweld â phrosiectau lleol a chwedd â phobl allweddol sy'n sbarduno newid, a chynhwyswch hyn fel elfen allweddol dysgu a datblygu ar bob lefel yn eich sefydliad.

E.e. **Ymweliad Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol** â'r prosiect [Croeso i'n Coedwig](#).

Defnyddiwch dechnoleg yn greadigol i ennyn ymgysylltiad pobl, megis rhith-realiti a gemau i annog cynllunio a gwneud penderfyniadau a'r canlyniadau posibl.

E.e. Yr archwiliad hwn o offeryn [rhith-realiti](#) ar gyfer cynllunio trefol a gwarchod treftadaeth ddiwylliannol.

Defnyddiwch ymagweddau data agored tuag at rannu data, gan ddefnyddio rhwydwaith o gyfranwyr a chyfranogwyr i adnabod datrysiadau.

Perchnogi'r **Uchelgais**

Sicrhewch fod yna un pwynt cyswllt i holl weithgareddau ymgyfrannu sy'n digwydd ar draws partneriaeth megis calendr ymgyfrannu cydweithredol i sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hysbysebu'n dda a chyfleoedd ar gyfer cydweithio'n cael eu hadnabod i osgoi dyblygu.